

PWYLLGOR RHEOLI POBL IFANC. YPMC.

Sut i fod yn Gyngorydd Ifanc ar y Pwyllgor
Rheoli Pobl Ifanc ar gyfer Partneriaeth
Ddyfodol Ni.

CYNNWYS



1

BETH YW DYFODOL NI &
PWY YW'R YPMC?

2

Y RÔL: CYNGHORYDD IFANC

3

AM BWY RYDYN NI'N CHWILIO

4

BETH SYDD EISIAU I CHI WNEUD

5

BE GEU DI?

6

EIN GWERTHOEDD &
ADDEWID Y PARTNERIAETH

7

SUT I WNEUD CAIS



CROESO!

HELO.

RYDYM WRTH EIN BODD EICH BOD YN YSTYRIED
GWNEUD CAIS I YMUNO Â'N PWYLLGOR RHEOLI POBL
IFANC.

CYN I CHI WNEUD CAIS, DYLECH WYBOD YCHYDIG AM
BETH YR OLYGA ...



1

BETH YW DYFODOL NI & PWY YW'R YPMC?

Partneriaeth yw Dyfodol Ni (Our Future) sy'n cynnwys sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc ar draws Ceredigion. Rydym wedi dod at ein gilydd i weithio gyda phobl ifanc ar lunio gwasanaethau iechyd meddwl ar draws y sir. Mae'r bartneriaeth yn bwriadu gweithio gyda phwyllgor rheoli o bobl ifanc i lywio gwasanaethau i fod yn well, yn fwy eofn, a chreu newid hirdymor.

Mae sut olwg fydd ar hyn yn ymarferol eto i'w benderfynu a chaiff hyn ei wneud unwaith y byddwn wedi penodi'r bobl ifanc cyntaf a'u bod yn rhoi eu syniadau i ni; ond yr hyn a gredwn y bydd yn ei olygu yw y bydd y Pwyllgor Rheoli Pobl Ifanc (YPMC) yn gweithio gyda Thîm Ymgysylltu Dyfodol Ni i ymchwilio ac awgrymu, a chynghori'r bartneriaeth, ar ba brosiectau a rhaglenni y dylid eu hariannu yn y dyfodol. Caiff hyn ei wneud gan weithio gyda thîm y bartneriaeth ar y blaenoriaethau yn seiliedig ar y cyllid sydd ar gael.





Bydd YPMC yn cyfarfod yn fisol i adolygu cynnydd y bartneriaeth, a bydd bob aelod yn gallu cyrchu rhaglenni hyfforddi, offer a chlodiant sydd eu hangen i gyflawni'r rôl. Bydd Tîm Ymgysylltu Dyfodol Ni yn trefnu ac yn cefnogi'r YPMC, gan archebu cyfarfodydd ar eu cyfer (ar-lein neu wyneb yn wyneb) a threfnu teithio, bwyd, llety, cyflenwadau ac ati.

Bydd pob aelod yn cael iawndal am eu hamser.

Gweithia'r YPMC gyda'r tîm ymgysylltu, partneriaid, a gweithwyr proffesiynol dibynadwy, i ganfod y dull orau o gyflwyno rhaglen o weithgareddau ar gyfer y pum mlynedd sy'n weddill o'r prosiect. Y bwriad yw gwella gwasanaethau iechyd meddwl i bobl ifanc yng Ngheredigion a chreu newid parhaol.



Hoffem achub ar y cyfle hwn i amlygu pa mor werthfawr a phwysig yw amrywiaeth i ni – a thrwy hynny, golygwn bobl ifanc o wahanol oedrannau, profiadau bywyd, cefndiroedd diwylliannol, lefelau addysg ffurfiol, a phrofiadau gwaith neu wirfoddoli (gyda ni a gyda sefydliadau eraill.) Rydym yn arbennig o awyddus i ymgeiswyr sydd wedi defnyddio gwasanaethau yng Ngheredigion, ac sy'n dod o ystod amrywiol o brofiadau, oherwydd bydd ganddyn nhw ddealltwriaeth o'r ffordd orau o greu gwasanaethau sy'n gynhwysol i bawb.

Rydym yn cydnabod bod doethineb yn dod o grwpiau ac nad yw'n dibynnu ar unrhyw un person. Byddem yn falch iawn o dderbyn eich cais os oes gennych yr angerdd i helpu i arwain Dyfodol Ni tuag at gyflawni hyd yn oed mwy ar gyfer plant, pobl ifanc yn eu harddegau a phobl ifanc.

2



Y RÔL: CYNGHORYDD IFANC

leuenctid yn unig sy'n arwain Dyfodol Ni. Golyga hynny mai chi sy'n gwneud y penderfyniadau, rydyn ni yno ond i wneud i bethau ddigwydd! Ni allwn gael ein harwain gan bobl ifanc heb Bwyllgor Rheoli Pobl Ifanc, felly rydym am benodi hyd at 14 o bobl ifanc a fydd yn ffurfio YPMC. Hoffem glywed gan bobl ifanc sydd â phrofiad o, neu sy'n poeni am: Lesiant ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc a materion sy'n effeithio ar y rhain, gydag angerdd i wneud pethau'n well i bawb.



Dylai Ymgynghorwyr Ifanc ddod â'u profiadau byw ac unrhyw wybodaeth am wasanaethau o'u bywydau eu hunain. Nid oes angen unrhyw gymwysterau neu brofiad gwaith arall arnoch. Defnyddia'r Cynghorwyr Ifanc eu sgiliau, eu gwybodaeth neu eu profiadau eu hun i helpu'r YPMC i wneud penderfyniadau a helpu i ddatblygu cynllun cyflawni ar gyfer gwasanaethau a ariennir. Mae hyn i ddechrau yn 2023.



Golyga hyn wneud ymchwil neu ddarllen pethau efallai (cynigion, polisiau, cynlluniau prosiect, ac ati) y mae'r tîm ymgysylltu wedi'u paratoi a rhoi eich barn, adborth, a syniadau, ac arwain trafodaethau gyda phobl ifanc eraill.

Gallech ganolbwyntio ar ddarn ymarferol o waith fel datblygu rhwydwaith o bobl ifanc a cheisio safbwyntiau a barn ehangach gan y grwpiau hyn.

Bydd cynghorwyr ifanc yn cael y cyfle i herio sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau ar rywbeth y teimlwch fod angen i ni ei wella, neu y dylem fod yn mynd i'r afael ag ef, a chyfeirio cyllid yn briodol.





Rydym ni, fel pobl ifanc, yn ffocws y sefydliad, yn gwneud penderfyniadau, yn arwain prosiectau ac yn cael ein cymryd o ddifrif, ein gwerthfawrogi a'n parchu. Drwy dderbyn cyllid gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, mae ein nodau a'n syniadau'n fwy agos i gyrraedd ac rydym yn cael y cyfleoedd a'r gydnabyddiaeth yr ydym yn eu haeddu.

Team 43, Aberteifi, Ceredigion


3



AM BWY RYDYN NI'N CHWILIO

Rydym yn chwilio am bobl ifanc 14 – 25 mlwydd oed sy'n gallu arwain, herio a chefnogi datblygiad Dyfodol Ni. Dyma'r rhinweddau rydyn ni'n edrych amdany'n nhw:

- ▶ Rydych chi'n angerddol am safiad ieuenctid Dyfodol Ni a'r materion y mae'r prosiect yn awyddus i fynd i'r afael â nhw.
- ▶ Rydych chi'n poeni am hyrwyddo materion sy'n bwysig i blant a phobl ifanc; yn enwedig y rhai sy'n profi anfantais, neu brofiadau plentynodod a allai eu hatal rhag cael bywyd da a hapus
- ▶ Rydych chi'n dda am weithio gyda grŵp o bobl ifanc eraill.
- ▶ Rydych chi am gynrychioli barn a gwaith pobl ifanc i bobl eraill gan gynnwys cyllidwyr, darparwyr gwasanaethau, a chomisiynwyr gwasanaethau.
- ▶ Rydych chi'n gwerthfawrogi gwahanol safbwyntiau, profiadau, sgiliau a gwybodaeth pobl eraill.
- ▶ Mae gennych yr amser i wneud y rôl hon (Cyfarfod Misol, am 12 mis)



BETH SYDD EISIAU I CHI WNEUD

Bydd gofyn i chi fynychu pob YPMC, naill ai wyneb yn wyneb neu ar-lein (darperir unrhyw dechnoleg neu gludiant sydd eu hangen arnoch i wneud hynny)

Efallai y cewch eich gwahodd hefyd i gynrychioli'r YPMC yng Nghyfarfodydd Partneriaeth Dyfodol Ni. Caiff y rhain eu cynnal pedair gwaith y flwyddyn ac yna adroddir yn ôl i'r YPMC ar yr hyn a wnaeth ddigwydd yn y cyfarfod a'r hyn yr hoffech ei wneud â'r wybodaeth honno (herio, rhoi cymorth, gwneud cynnig i gymryd rhan, eu cynorthwyo i ddod o hyd i gysylltiadau neu adnoddau, ac ati). Caiff yr holl gyfarfodydd hyn eu trefnu o flaen llaw er mwyn i chi allu gwirio'ch dyddiadur a sicrhau eich bod ar gael.



Gallwch hefyd ddisgwyl mynychu penwythnos preswyl blynyddol mewn lleoliad godidog gyda bwyd bendigedig, siaradwyr gwadd, a gweithgareddau i'ch helpu i feddwl yn wirioneddol greadigol am ddyfodol Dyfodol Ni a lle y dylai fod yn ffocysu.

Os cewch eich penodi i'r YPMC, byddwch fel arfer yn cael eich penodi am 12 mis. Bydd yr YPMC yn penodi aelodau newydd i ymuno'n flynyddol felly mae cymysgedd o wynebau ffres a phobl brofiadol ar sail sy'n cylchdroi.

Bydd holl aelodau'r YPMC yn derbyn tâl am eu hamser.

5

BE GEU DI?



Nid ydym erioed wedi gwneud hyn o'r blaen, felly dyma'ch cyfle i lunio ac arwain ffordd newydd sbon o weithio a dylunio gwasanaethau ar gyfer iechyd meddwl.

GOBEITHIWN Y BYDDWCH:

Gwell sgiliau cydweithio, datblygu syniadau, rhedeg ymgyrchoedd a chynrychioli eraill, trwy gyrchu rhaglen hyfforddi bwrpasol yn seiliedig ar anghenion hyfforddi'r YPMC.

Byddwch yn datblygu hyder ac ymwybyddiaeth o sut mae defnyddio eich sgiliau newydd.

Ffrindiau a chysylltiadau newydd, y gallwch chi alw arnyn nhw i gael cymorth a chefnogaeth gyda'ch gyrfa yn y dyfodol.

Amser pleserus a gwych - yn enwedig ar y penwythnos preswyl blynyddol.





EIN GWERTHOEDD & ADDEWID Y PARTNERIAETH

EIN GWELEDIGAETH:

Dylunio ac arloesi moesegol trwy gydgynghyrchu dan arweiniad ieuenctid gyda phlant a phobl ifanc, byddwn yn gwneud y byd yn lle mwy caredig, hapusach ac iachach i bawb.

EIN CENHADAETH:

Rydym yn meithrin ac yn hyfforddi plant a phobl ifanc i greu rhaglen o weithgareddau sy'n gwella gwasanaethau iechyd meddwl i bobl ifanc yng Ngheredigion, gan greu newid parhaol mewn systemau.

EIN GWERTHOEDD:

Ym mhopeth a wnawn, mae'r gwerthoedd allweddol hyn yn greiddiol i ni, ac mae ein haddewid partneriaeth yn diffinio ein gwerthoedd allweddol.



ADDEWID PARTNERIAETH.

Cafodd addewid Partneriaeth Dyfodol Ni ei chreu gan bobl ifanc er mwyn gosod cytundeb y sefydliadau partner i gynnal ffocws gweithgareddau'r bartneriaeth dan arweiniad ieuenctid. Rhaid i bob sefydliad partner arfaethedig lofnodi'r addewid isod.

Mae sefydliadau'n cytuno i sicrhau'r canlynol:

1 DAN ARWEINIAD IEUENCTID

Mae lleisiau pobl ifanc yn ganolog i'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnig iddyn nhw. Gallant ddefnyddio'r gwasanaeth a ffefrir ganddyn nhw i feithrin annibyniaeth ac ymddiriedaeth mewn gwasanaethau a arweinir gan bobl ifanc, gan annog ymgysylltiad a brwdfrydedd yn yr hyn a wnawn.

Mae gwasanaethau'n ymateb i anghenion pobl ifanc leol, fel y'u diffinnir ganddyn nhw, gan gynnig cymorth hygyrch lle bynnag y mae'n bosibl, gyda chymorth wedi'i dargedu i'r rhai sy'n cael eu hystyried eu bod mewn mwy o berygl, dan anfantais neu ag anghenion uwch.



2 CYNWYSOLDEB, CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

Wrth iddyn nhw dyfu'n oedolion, mae pobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu a'u cynnwys yn eu hardal leol a gallant gael mynediad i'r cymorth y maen nhw'n penderfynu sydd ei angen arnyn nhw. Ni ddylent deimlo'n ynysig nac yn wahanol oherwydd dewis iaith, ethnigrwydd, anabledd, rhywioldeb, cenedligrwydd, statws economaidd-gymdeithasol, anghenion addysgol arbennig, materion iechyd meddwl, crefydd neu unrhyw nodwedd arall.

Dylai'r gwasanaethau ieuenctid lleol helpu i wella amgylchiadau bywyd pobl ifanc o bob cefndir fesul cynnig cymorth i ddatblygu'r sgiliau, y wybodaeth a'r rhwydweithiau sydd eu hangen arnyn nhw i gael mynediad at gyfleoedd a manteisio arnyn nhw.

3 PARCH

Caiff anghenion a dymuniadau pobl ifanc lleol eu hystyried lawn cymaint ag unrhyw grŵp cymunedol arall. Dylent deimlo eu bod yn cael eu clywed, eu gwerthfawrogi a'u parchu. Mae ieuenctid lleol yn cael eu hannog i gymryd rhan yn eu cymunedau a mwynhau cyfleoedd yn eu hardal heb boeni am farn neu stereoteipio negyddol.



4 ANSAWDD, DIOGELWCH A LLESIANT

Darperir gwasanaethau mynediad agored o ansawdd da gan staff â hyfforddiant diogelu sydd â chysylltiadau â chymorth pellach os oes angen. Mae ein gwasanaethau yn helpu i gadw pobl ifanc yn ddiogel ac yn cefnogi eu hiechyd meddwl, emosiynol a chorfforol, yn gwella eu llesiant cymdeithasol ac economaidd. Mae'n sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad at addysg, dysgu anffurfiol a gweithgareddau o'u dewis.

5 RHOI GRYM

Mae gwasanaethau'n rhoi grym i bobl ifanc i symud ymlaen ac ymgysylltu â chyflogaeth, addysg a hyfforddiant, ac i gymryd rhan weithredol yn eu cymunedau lleol. Gwrandewir ar bobl ifanc a gallant wneud newidiadau cadarnhaol i'w cymunedau, a deall sut i ymgysylltu â gwneud dewisiadau.

6 POSITIFRWYDD

Canolbwyntia gwasanaethau ar ddod â'r gorau allan o bob unigolyn, gan eu cynorthwyo i ddatblygu eu sgiliau a'u priodoleddau, yn hytrach na cheisio 'trwsio problem'.



SUT I WNEUD CAIS I FOD YN GYNGHORYDD IFANC

Cyflwynwch eich cais ym mha bynnag ddull yr hoffech. Gallai fod yn PDF braf, taclus, neu fe allech chi fachu ychydig o bapur a beiro os ydych chi awydd mynd am nawws analog, Stranger Things (yn amlwg tynnwch lun ohono ac yna uwch lwythwch hwnnw neu anfonwch atom fesul bost malwoden os rydych wir yn mynd amdani). Hunanbortread anodedig efallai? Fe allech chi uwch lwytho recordiad fideo neu sain ... beth bynnag rydych chi'n ei anfon, rhowch eich enw yn nheitol y ddogfen fel ein bod ni'n gwybod o bwy mae'n dod. Yn eich cais, soniwch wrthym amdanoch chi eich hun a sut byddech chi'n cyd-fynd â'r disgrifiad sydd wedi eu crybwyll gennym yn gynharach.

Rydym mor falch bod gennych ddiddordeb mewn ymuno
â'n YPMC.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau cyn i chi wneud cais,
cysylltwch â ni.

Dylid anfon pob cais ar e-bost i
DyfodolNi@Area43.co.uk.